

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held
at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 31ain Ionawr, 2023
at 10.00 am

PRESENT: County Councillor Tony Easson (Chairman)
County Councillor John Crook, (Vice Chairman)

County Councillors: Lisa Dymock, Christopher Edwards,
Simon Howarth, Jane Lucas, Alistair Neill, Sue Riley, Jackie Strong
and Armand Watts

OFFICERS IN ATTENDANCE:

David Jones	Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Linda O'Gorman	Principal Licensing Officer
Ben Davies	Solicitor
Wendy Barnard	Swyddog Gwasanaethau Democraidd

APOLOGIES:

County Councillor Ann Webb

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2. Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022

Cadarnhawyd y cofnodion.

3. Cadarnhau a llofnodi cofnodion o'r is-bwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddiol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2022

Cadarnhawyd y cofnodion.

4. Polisi ac Amodau Tacsis a Cherbydau Hur Preifat 2023

Cyflwynodd y Prif Swyddog Trwyddedu adroddiad Polisi ac Amodau Tacsis a Cherbydau Hur Preifat 2023. Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

- Gofynnodd Aelod os yw nifer y gyrrwyr tacsis cenedlaethol tramor ar gael a chafodd ei hysbysu os oes gan yrwrwr yr hawl i weithio na chânt eu hystyried fel gyrrwyr cenedlaethol tramor. Defnyddir y gwiriad estynedig os y bu'r gyrrwr yn y Deyrnas Unedig am gyfnod byr yn unig. Ni fu unrhyw broblemau gyda hyn ers y cyflwynwyd y gofyniad yn 2018.
- O ystyried yr amod y gofynnir i yrwrwr sy'n gwneud cais gyda 6 pwynt i gwblhau cynllun Pass Plus, byddai'n well gan Aelod gael prawf llymch, a chytunwyd y gofynnir i

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 31ain Ionawr, 2023 at 10.00 am

Lywodraeth Cymru ystyried ailweithredu Profion Tacsî yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) yn genedlaethol. Atgoffwyd y Pwyllgor am bwysigrwydd cysondeb gyda'r awdurdodau cyfagos.

- Gofynnodd Aelod pam fod Casnewydd yn ei gwneud yn ofynnol i basio cwrs Pass+ os oes ganddynt fwy na 5 pwynt ar eu trwydded DVLA adeg gwneud cais. Esboniwyd y bu hyn yn bolisi hir-sefydlog cyn gweithredu'r polisi newydd a gall hyn newid i 6 pwynt.
- Gofynnodd Aelod am oblygiadau y Cytundeb Gadael ac os oes unrhyw rwystr i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd gyda statws sefydlog. Hefyd, ansawdd y gwiriadau ychwanegol gan efallai nad oes mynediad i'r un gronfa ddata â phan oedd y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd. Pwysleisiodd yr Aelod fod gan ddinasyddion yr Undeb Ewrop sydd â dinasyddiaeth yr un hawliau. Cyfeiriodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd y Pwyllgor at y rhestr ar [GOV.UK Criminal records checks for overseas applicants](#) ar gyfer manylion gwiriadau cofnodion troseddol pob gwlad. Nid yw'r gost yn afresymol gan amrywio o ddim ffi i £45.00+.
- Dywedodd Aelod fod oedran cyfrifoldeb troseddol yn amrywio mewn gwahanol wledydd. Ymatebodd y Prif Swyddog Trwyddedu y byddai gwiriad estynedig yn rhoi cymaint o wybodaeth ag sydd modd. Yng nghyswllt gyrwyr tacsî, ni chaiff euogfarnau byth eu treulio felly yr angen i bolisiau i ddelio gydag euogfarnau..

Yn dilyn pleidlais ar argymhellion yr adroddiad, cymeradwyodd Aelodau y polisi ac amodau newydd a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2023, a roddir yn Atodiad B.

Fe wnaeth yr Aelodau hefyd benderfynu a chymeradwyo'r dilynol yng nghyswllt Safonau Euro 4. Caiff cerbydau eu trwyddedu ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Fynwy ar gyfer dibenion cerbydau hacni a hur preifat gadw hawliau tad-cu a chael eu trwyddedu ar gyfer oes silff eu cerbyd. Bydd angen i bob cais am gerbydau newydd fod i safon Euro 6.

Fel rhan o argymhellion yr adroddiad, cytunwyd gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried Profion Tacsî (DVSA) yn genedlaethol.

- Holodd Aelod am gwynion am yrwyr tacsî gan nodi o'r wefan y daeth 75% o gwynion am dacsî heb drwydded gan gyfeillion pobl sydd wedi gwneud adroddiadau am hysbysebu gwasanaethau hurio ar y cyfryngau cymdeithasol. Awgrymwyd ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i annog pobl ifanc i ddod ymlaen gyda chwynion, beth i'w ddisgwyl pan ddefnyddiwyd dacsî a'r hyn sy'n ymddygiad derbyniol. Rhoddodd y Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd sicrwydd i Aelodau fod Swyddog Trwyddedu ym mhob tref, perthynas dda a gwybodaeth leol dda. Mae cydweithio agos gyda'r Heddlu. Mae'n rhaid i yrwyr tacsî gwblhau prawf diogelu a gwybodaeth am y pwyntiau a godwyd ynghyd â sut mae gyrwyr tacsî yn adrodd sylwadau teithwyr (e.e. sylwadau sarhaus, troseddau casineb). Bwriedir cynnal digwyddiad gwobrwyo ar thema troseddau casineb ar 24 Ebrill mewn cysylltiad ag awdurdodau Gwent Fwyaf. Cafodd mynediad ar gyfer pobl anabl hefyd ei godi.

Holwyd am ddiogeliad ar gyfer gyrwyr tacsî ac mewn ymateb cadarnhawyd nad oes darpariaeth ar gyfer CCTV yn y polisi. Nid yw'n ofynnol cael CCTV.

Cafodd y materion ategol a drafodwyd yn dilyn y bleidlais eu cyfeirio at y Swyddogion a chânt eu hychwanegu at yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y dylid ychwanegu Rhaglen Gwaith ar yr agendau yn y dyfodol.

5. Adolygu Ffioedd Trwyddedu Blyneddol ar gyfer blwyddyn Ariannol 2023/24

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 31ain Ionawr, 2023 at 10.00 am

Cyflwynodd y Prif Swyddog Trwyddedu yr Adolygiad Blynyddol o Ffioedd Trwyddedu ar gyfer Adroddiad Blwyddyn Ariannol 2023/24. Gwahoddwyd cwestiynau yn dilyn cyflwyno yr adroddiad:

- Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad am y gwahanol gynnydd canrannau ar gyfer ffioedd a dywedwyd y defnyddir system ragnodol a gymeradwywyd gan Grŵp Cymru Gyfan. Mae hyn yn seiliedig ar wahanol ffactorau tebyg i nifer arolygiadau, faint o waith sydd ei angen, elfennau polisi ac yn y blaen ac fe'i defnyddir i benderfynu ar ffi derfynol ar gyfer y flwyddyn.
- Gofynnwyd os yw'r ffioedd yn talu am yr holl gostau yn neilltuol amser swyddogion sy'n ymwneud â chefnogi trwyddedu nid dim ond costau gweinyddol. Esboniodd y Prif Swyddog Trwyddedu ei fod yn dibynnu ar wahanol ddeddfwriaeth ar gyfer y trwyddedau dan sylw. Codir tâl ar gyfer rhai elfennau, ond nid eraill. Mae'n bendant ar sail adferiad cost, ond yr awdurdod sy'n gyfrifol am orfodaeth.
- Gofynnodd aelod am eglurhad am y ffioedd ar gyfer hurio cerbydau hacni/preifat gan y caiff rhai elfennau eu gosod gan Dorfaen. Esboniwyd fod y tabl ar gyfer ffioedd Sir Fynwy. Caiff yr asesiad ei wneud ledled Cymru ac mae'n dibynnu ar amser swyddogion a faint o waith a wnaed yn y flwyddyn flaenorol.
- Holodd aelod am eglurhad ar y ffioedd ar gyfer masnachu stryd gan nodi yr ymddengys fod y gost wedi gostwng. Cadarnhawyd fod hyn yn gywir.
- Holodd Aelod am Torfaen Training a chadarnhawyd nad yw Sir Fynwy yn talu am y gost yma. Mae'n fater i yrwyr i'w gwblhau fel rhan o'u prawf diogelu a gwybodaeth cyn iddynt wneud cais.

Yn dilyn pleidlais o blaid, cymeradwyodd y Pwyllgor y ffioedd a nodir yn Atodiad A yr adroddiad gyda'r teitl "Rhestr Ffioedd Trwyddedu 2023-24", yn amodol, lle'n berthnasol, ar unrhyw hysbysiad cyhoeddus sydd ei angen a chytunwyd dod ag unrhyw wrthwynebiadau, a wnaed yn briodol, ynghylch ffioedd ar gyfer dyfarnu trwyddedau ar gyfer cerbydau hacni a hurio preifat i'r Pwyllgor ar y cyfle cyntaf posibl i gael ei ystyried yn briodol.

6. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

The meeting ended at 10.51 am